AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

# CANOLRADD

## GWEITHGAREDDAU 1-15




www.aocc.ac.uk

# CYNNWYS

## Gweithgaredd rhif:


1 Dysgu sut i ddyfalu.

2 Adrodd stori syml.

3 Dysgu sut i leoli pethau a holi beth yw'r gair Cymraeg am rywbeth.

4 Dysgu sut i gymeradwyo.

5 Trafod rhaglenni teledu a radio.

6 Dysgu sut i ganmol a beirniadu.

7 Pwysleisio.

8 Pobl - natur a chymeriad.

9 Holi am wybodaeth.

10 Gwyliau.

11 Cymharu dyddiau ysgol 'slawer dydd a heddiw.

12 Cyfoethogi geirfa.

13 Priodasau a phriodi.

14 Rhoi pethau mewn trefn a dysgu'r ffurfiau amhersonol cryno.


15 Ofergoelion.

# GWEITHGAREDD 1

**Nod:** Dysgu sut i ddyfalu.

## Patrymau:

Dw i'n meddwl taw lamp yw hi.
Teclyn i wneud rhaff yw e.
Mae'n edrych fel cryman i fi.
Does dim syniad 'da fi beth yw e.
Ydy e ar gyfer gwasgu caws?
Ga' i ei godi e?
Faint mae e'n bwyso?
Oedd e'n cael ei ddefnyddio ar ffermydd?
Ydy'r darn gwaelod yn symud?
Pa mor hen yw e?
Mae e'n edrych fel metel.
Dw i'n sicr nawr taw teclyn ar gyfer gwneud canhwyllau yw e.



## Geirfa:

| | | | |
|---|---|---|---|
| cannwyll (canhwyllau) b. | = a candle | garw | = rough |
| offeryn (offer) g. | = a tool | ysgafn | = light (in weight) |
| cryman (-au) b. | = a sickle | codi | = to lift |
| rhaff (-au) g. | = a rope | pwyso | = to weigh |
| darn (-au) g. | = a piece, a part | defnyddio | = to use |
| teclyn (taclau) g. | = a tool, a device | symud | = to move |
| | | gwasgu | = to press, to squeeze |
| byr | = short | teimlo | = to feel |
| hir | = long | trafod | = to handle, to discuss |
| esmwyth | = smooth | ar gyfer | = for |
| trwm | = heavy | fel | = like |

# Dysgwr:

Bydd aelod o staff yr Amgueddfa yn dangos nifer o wrthrychau (objects) i chi. Eich tasg fydd dyfalu beth ydyn nhw trwy ei holi.









# GWEITHGAREDD 2

**Nod:** Adrodd stori syml.


## Patrymau:

Dyma dair stori am yr adeiladau yn Sain Ffagan. Darllenwch nhw gan geisio eu cofio:

i) Weithiau yng nghanol y nos mae rhai o ofalwyr yr Amgueddfa wedi clywed sŵn y felin yn gweithio. Dywedon nhw eu bod wedi clywed y rhod yn troi ganol nos. Doedd hyn ddim yn bosib yn ôl y melinydd, am ei fod e wedi jamio'r olwyn fawr cyn mynd adref a chloi drws y felin. Ond mae rhai'n dweud hefyd eu bod wedi clywed sachau'n cael eu llusgo ar draws llawr y felin fel tasai rhywun yn gweithio yno. Mae'n bosib bod ysbryd yn y felin. Beth yw eich barn chi?

ii) Am ganol nos ar Nos Galan Gaeaf roedd pobl y pentref yn sefyll y tu allan i eglwys y plwyf ac yn gwrando yn astud iawn. Roedden nhw'n ofnus iawn am eu bod yn credu bod y diafol yn yr eglwys a'i fod yn darllen rhestr o enwau pobl. Pam roedd ofn arnyn nhw? Wel, achos bod y diafol yn cyhoeddi pwy oedd yn mynd i farw yn ystod y flwyddyn honno! Ys gwn i fydd hyn yn digwydd pan fydd Eglwys Tal-y-bont yn agor yn yr Amgueddfa? Beth yw eich barn?

iii) Tua 6 o'r gloch un bore yn y gaeaf roedd gofalwr yn cerdded o'r prif adeilad i gyfeiriad y castell. Roedd hi wedi bod yn bwrw eira ac roedd trwch o eira ar y llawr. Wrth iddo ddod allan o'r twnnel, edrychodd i'r chwith a gweld dyn â chi du yn sefyll yno. Roedd yn meddwl eu bod yn hela cwningod ond trodd yn ôl i gyfeiriad y twnnel a chysylltu â gofalwr arall gan ei fod yn teimlo'n ofnus. Daeth ei gydweithiwr yn gyflym ond pan ddaethon nhw allan o'r twnnel ac edrych i'r chwith, doedd dim sôn am y dyn na'r ci a doedd dim olion traed yn yr eira! Beth welodd y gofalwr?



# Geirfa:

| | |
|---|---|
| barn b. | = an opinion |
| olion traed ll. | = footprints |
| canol nos g. | = midnight |
| olwyn (-ion) b. | = a wheel |
| cwningen (cwningod) b. | = a rabbit |
| plwyf (-i) g. | = a parish |
| cydweithiwr (cydweithwyr) g. | = a colleague |
| rhod (-au) b. | = a wheel |
| diafol g. | = a devil |
| rhestr (-i) b. | = a list |
| gofalwr (gofalwyr) g. | = an attendant |
| sach (-au) b. | = a sack |
| melin (-au) b. | = a mill |
| trwch g. | = a thickness |
| melinydd (-ion) g. | = a miller |
| twnnel (twneli) g. | = a tunnel |
| Nos Galan Gaeaf b. | = Halloween |
| ysbryd (-ion) g. | = a spirit |
| astud | = intent |
| ofnus | = nervous |
| hela | = to hunt |
| cysylltu â | = to contact |
| jamio | = to jam |
| dweud celwydd | = to tell lies |
| llusgo | = to drag |
| teimlo | = to feel |
| ar draws | = across |
| yn ôl | = according to |
| dim sôn am | = no sign of |
| yn ystod | = during |
| i gyfeiriad | = in the direction of |

a) Dyma sgerbwd o'r tair stori. Defnyddiwch nhw i ddweud y stori wrth eich tiwtor/partner/grŵp. Ydych chi'n gallu adrodd stori debyg i'r rhain?:

i) Canol nos - gofalwyr - clywed - rhod - melinydd - jamio - cloi - sachau - llusgo - credu.
ii) Nos Galan Gaea' - tu allan i'r eglwys - gwrando - ofnus - diafol - enwau - cyhoeddi - marw
iii) 6 o'r gloch yn y bore - bwrw eira - allan o'r twnnel a gweld dyn a chi - galw am help - neb i'w weld - dim olion traed.

b) Ydych chi'n gallu adrodd hanesyn tebyg i un o'r rhain?







# GWEITHGAREDD 3

**Nod:** Dysgu sut i leoli pethau'n fanwl a holi beth yw'r gair Cymraeg am rywbeth.

## Patrymau:

Mae'r haearn smwddio ar y silff ben tân.
Roedd y darlun uwchben y lle tân.
Mae'r tegell wrth ochr y tân.
Roedd y cloc rhwng y ddau lun.
Mae'r ffender o flaen y tân.
Mae hambwrdd dan y ford.
Yn y cwpwrdd mae'r llestri
Beth yw hwnna ar ben y cwpwrdd?
Beth yw 'bakestone' yn Gymraeg?



## Geirfa:


| | | | |
|---|---|---|---|
| bowlen (-ni) b. | = a bowl | uwchben | = above |
| hambwrdd (hambyrddau) g. | = a tray | dan | = under |
| drych (-au) g. | = a mirror | wrth | = by |
| llechwan b. | = a bakestone | dros | = over |
| ffender (-ydd) b. | = a fender | gyferbyn â | = opposite |
| stôl (-ion) b. | = a stool | yng nghanol | = in the middle of |
| haearn (heyrn) smwddio g. | = an iron | o flaen | = in front of |
| tegell (-i) g. | = a kettle | y tu ôl i | = behind |
| rhwng | = between | yn ymyl | = near to |
| ar ben | = on top of | | |

# Dysgwr:

Ewch gyda phartner i'r tŷ cyntaf yn Rhes Rhyd-y-car ac edrychwch ar y patrymau ar y daflen. Nawr ewch i'r tŷ drws nesaf a gweld faint o frawddegau y gallwch eu gwneud am yn ail (alternately) â'ch partner heb i chi ddefnyddio'r un arddodiad (ee ar, wrth, rhwng) yn fwy nag unwaith. Allwch chi wella ar hyn yn y trydydd tŷ?










# GWEITHGAREDD 4

**Nod:** Dysgu sut i gymeradwyo (recommend).

## Patrymau:

Sawl lle bwyta sy yn yr Amgueddfa?
Oes lle bwyta da yma?
P'un yw'r gorau?
Allwch chi ddweud wrtho i ble galla i gael dysglaid o goffi?
Dw i eisiau pryd o fwyd. Allwch chi gymeradwyo rhywle?
Ydy caffi Siop Gwalia'n well na'r Popty?
Ydy hi'n bosib i fi brynu brechdan yn rhywle?
Ydy'r bwyd yn ddrud yn y ffreutur?
Ble gallwn ni fynd i fwyta ein bwyd ein hunain?
Ydy Popty Derwen yn gwerthu teisennod?
Oes tafarn yn yr Amgueddfa?



## Geirfa:

| | | | |
|---|---|---|---|
| ansawdd g. | = quality | teisen (-nod) b. | = a cake |
| ffreutur (-iau) g. | = a refectory | cwrs g. | = a course (in a meal) |
| bara menyn g. | = bread and butter | tost g. | = toast |
| pastai (pasteiod) b. | = a pie | bwyta | = to eat |
| brechdan (-au) b. | = a sandwich | yfed | = to drink |
| pop g. | = pop | cymeradwyo | = to recommend |
| cawl g. | = soup | ardderchog | = excellent |
| pryd (-au) o fwyd g. | = a meal | drud | = expensive |
| caws g. | = cheese | blasus | = tasty |
| pwdin g. | = a sweet, a pudding | gwael | = poor quality |
| cig oer g. | = cold meat | da iawn | = very good |
| salad g. | = salad | gweddol | = fair in quality |
| coffi g. | = coffee | diflas | = miserable |
| te g. | = tea | rhad | = cheap |
| cinio g. | = a dinner | rhesymol | = reasonable |

# Dysgwr:

Holwch ddau berson am wasanaeth arlwyo'r (catering service) Amgueddfa. Nodwch eu hatebion a rhowch adroddiad llafar i'ch tiwtor.



## Ble gallwch chi gael?

| 1. | Lle | Drud/Rhad? | Ansawdd (Da, gwael etc) |
|---|---|---|---|
| Pryd da o fwyd? | | | |
| Brechdanau? | | | |
| Dysglaid o goffi? | | | |
| Pryd ysgafn? | | | |
| Te prynhawn? | | | |
| Hufen iâ? | | | |

| 2. | Lle | Drud/Rhad? | Ansawdd (Da, gwael etc) |
|---|---|---|---|
| Pryd da o fwyd? | | | |
| Brechdanau? | | | |
| Dysglaid o goffi? | | | |
| Pryd ysgafn? | | | |
| Te prynhawn? | | | |
| Hufen iâ? | | | |








# GWEITHGAREDD 5

**Nod:** Trafod rhaglenni teledu a radio.

## Patrymau:

Pa mor aml dych chi'n edrych ar y teledu?
Dych chi'n gwrando ar y radio?
Dw i byth yn gwylio'r newyddion.
P'un yw eich hoff raglen?
Mae'n gas 'da fi 'Panorama'.
'Newsnight' yw fy nghas raglen
Dw i wrth fy modd yn gwylio ffilmiau.
Beth yw eich barn am S4C?
Mae hi'n credu bod gormod o chwaraeon ar y teledu.
Dw i ddim yn meddwl bod digon o ddrama ar S4C.
Beth hoffech chi (ei) weld ar S4C?
Hoffech chi weld mwy o ddramâu/chwaraeon etc.?



## Geirfa:

| | | | |
|---|---|---|---|
| comedi (comedïau) b. | = a comedy | hoff | = favourite |
| rhaglen byd natur | = a nature programme | cas | = most hated/disliked |
| drama (dramâu) b. | = a play | gwael | = poor in quality |
| rhaglen chwaraeon | = a sports programme | da | = good |
| ffilm (-iau) b. | = a film | gweddol | = fair in quality |
| rhaglen ddogfen b. | = a documentary | ofnadwy | = terrible |
| newyddion ll. | = news | byth | = never |
| rhaglen nodwedd | = a feature programme | unwaith yr wythnos | = once a week |
| rhaglen (-ni) b. | = a programme | dwywaith | = twice |
| rhaglen wleidyddol | = a political programme | tair gwaith | = three times |
| rhagolygon y tywydd | = the weather forecast | weithiau | = sometimes |
| ardderchog | = excellent | yn aml iawn | = very often |
| | | yn anaml | = seldom |
| | | digon (o) | = enough (of) |
| | | llawer (o) | = a lot (of) |
| | | gormod (o) | = too much (of) |
| | | ychydig (o) | = a few (of) |

# Dysgwr:

Holwch 3 o bobl am eu harferion gwylio/gwrando. Gwnewch nodiadau a chyflwynwch adroddiad i'ch tiwtor/partner/grŵp.

| Pa mor aml yn gwylio? | Hoff raglen? | Cas raglen? |
|---|---|---|
| 1. | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| 2. | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| 3. | | |
| | | |
| | | |
| | | |


| Gwrando ar Radio Cymru? | Digon o deledu Cymraeg? | Hoffech fwy o/lai o... |
|---|---|---|
| 1. | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| 2. | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| 3. | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# GWEITHGAREDD 6

**Nod:** Dysgu sut i ganmol a beirniadu.

## Patrymau:

Beth yw eich barn am...?
Beth dych chi'n feddwl o...?
Mae e'n ardderchog.
Maen nhw'n rhy isel.
Mae'r oriau braidd yn hir.
Baswn i'n dweud bod yr oriau'n rhesymol.
Dw i ddim yn meddwl ei fod yn dda o gwbl.
Roedd hi'n meddwl bod safon y bwyd yn warthus.
Mae'r cyflogau'n wael ond yr amodau gwaith yn dda.
Ar y cyfan, mae parcio'n eitha hawdd.
Gallai'r wisg fod yn well.
Maen nhw'n meddwl bod y cyflogau'n eitha da.




## Geirfa:



| | | | |
|---|---|---|---|
| amod (-au) gb. | = a condition | ardderchog | = excellent |
| cyflog (-au) g. | = pay, wage | hawdd | = easy |
| awr (oriau) b. | = an hour | gwael | = poor in standard |
| gwisg (-oedd) b. | = dress, uniform | hir | = long |
| bwyd g. | = food | gwarthus | = shameful |
| safon (-au) b. | = standard | isel | = low |
| ennill | = to earn | gwell | = better |
| parcio | = to park | rhesymol | = reasonable |
| gweithio | = to work | | |


# Dysgwr:

Gofynnwch i 3 gofalwr beth yw eu barn am y canlynol. Rhowch (✔) yn y golofn iawn a pharatowch adroddiad llafar i'ch tiwtor.

| | Ardderchog | Da | Eitha da | Iawn | Drwg | Gwael | Ofnadwy |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | | | | | | | |
| Oriau | | | | | | | |
| Amodau gwaith | | | | | | | |
| Bwyd | | | | | | | |
| Gwisg | | | | | | | |
| Parcio | | | | | | | |





| | Ardderchog | Da | Eitha da | Iawn | Drwg | Gwael | Ofnadwy |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | | | | | | | |
| Oriau | | | | | | | |
| Amodau gwaith | | | | | | | |
| Bwyd | | | | | | | |
| Gwisg | | | | | | | |
| Parcio | | | | | | | |

| | Ardderchog | Da | Eitha da | Iawn | Drwg | Gwael | Ofnadwy |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | | | | | | | |
| Oriau | | | | | | | |
| Amodau gwaith | | | | | | | |
| Bwyd | | | | | | | |
| Gwisg | | | | | | | |
| Parcio | | | | | | | |



# GWEITHGAREDD 7

**Nod:** Dysgu sut i ffurfio brawddegau pwysleisiol.

## Patrymau:

Llainfadyn yw'r bwthyn mwya diddorol yn yr Amgueddfa.

Ffermwr oedd biau'r adeilad yn wreiddiol.


Y talwrn sy'n dod o Sir Ddinbych.

Yng Nghaerdydd roedd y pre-ffab yn sefyll yn wreiddiol.

Siop y Teiliwr ddaeth o Cross Inn.

Y gofalwr atebiff dy gwestiwn.

Y gof fydd yn gweithio yn yr efail.



# Dysgwr:

Ewch i holi staff yr Amgueddfa ac wedyn, nodwch y ffeithiau gan ddilyn y patrwm isod.

[Cwestiwn: O ble daeth bwthyn Llainfadyn yn wreiddiol?
Ateb: O Wynedd.
Cofnod: O Wynedd daeth bwthyn Llainfadyn yn wreiddiol]

1. Pwy – sefydlu – Amgueddfa Werin Cymru?

---

2. Pa adeilad – dod – Oakdale?

---

3. Pwy – sy'n gwneud – llestri - a ble?

---

4. Pryd – agor – Amgueddfa Werin Cymru?

---

5. Pwy – sy'n gwneud pedolau (horse shoes) – a ble?

---

6. Pwy – oedd biau – castell – gwreiddiol?


---


7. Ble – pobl gallu bwyta – Amgueddfa?

---

8. Faint o'r gloch – Amgueddfa – cau yfory?

---





# GWEITHGAREDD 8

**Nod:** Trafod natur pobl.

## Patrymau:

Dw i ddim yn berson hunanol.

Maen nhw'n meddwl ei fod e'n swil.

Dyna fachgen anfoesgar yw e.


Dych chi'n meddwl ei fod e'n anlwcus?

Roedd hi'n fyrbwyll pan oedd hi'n ifanc.

Dyn ni ddim yn hoffi pobl eiddigeddus.

Basai Tom yn ennill tasai e'n fwy amyneddgar.

Paid â bod mor ddiog!



## Geirfa:

| | | | |
|---|---|---|---|
| amyneddgar | = patient | swil | = shy |
| byrbwyll | = short tempered, impetuous | gweithgar | = diligent |
| hunanol | = selfish | diog | = lazy |
| cymwynasgar | = helpful | moesgar | = courteous |
| cyfeillgar | = friendly | anfoesgar | = rude |
| anghyfeillgar | = unfriendly | lwcus | = lucky |
| hyderus | = confident | anlwcus | = unlucky |


# Dysgwr:

Ewch at 3 gofalwr a holwch ef/hi am natur y bobl a ganlyn:

| | | 1. | 2. | 3. |
|---|---|---|---|---|
| Y gofalwr ei hun | lwcus/anlwcus | | | |
| Pobl ifainc heddiw | moesgar/anfoesgar | | | |
| Y bobl drws nesaf | cyfeillgar/anghyfeillgar | | | |
| plant | hunanol/cymwynasgar | | | |
| ei gŵr/gwraig | ofnus/hyderus | | | |
| myfyrwyr | gweithgar/diog | | | |
| ei mam/fam | amyneddgar/byrbwyll | | | |

Rhaid i ofalwr yn yr Amgueddfa fod yn:

amyneddgar, cyfeillgar, cymwynasgar hyderus, moesgar



# GWEITHGAREDD 9

**Nod:** Dysgu sut i holi am wybodaeth.

## Patrymau:

Dych chi'n gallu dweud wrtho i ble mae'r tŷ bach agosa?
Dych chi'n gwybod ble dw i'n gallu postio llythyr?
Dw i eisiau gweld y gof. Ble mae e'n gweithio?
Sut dyn ni'n gallu mynd i Gaerdydd o'r fan 'ma?
Dych chi'n gallu dweud wrthon ni sut i gyrraedd y castell?
Ys gwn i dych chi'n gallu fy helpu i?
Dych chi'n gallu dweud wrtho i ble mae'r popty?



## Geirfa:

| | |
|---|---|
| blwch (blychau) postio g | = a post box |
| tŷ bach g. | = a toilet |
| eiddo g. | = property, belongings |
| agosa | = nearest |
| gorau | = best |
| coll | = lost |
| mwya cyfleus | = most convenient |
| pella | = furthest |

| | |
|---|---|
| ddim yn bell o | = not far from |
| o flaen | = in front of |
| ger | = near |
| yn ymyl | = near |
| gyferbyn â | = opposite |
| y pen arall i | = the far end from |
| nesaf at | = next to |
| y tu ôl i | = behind |

# Dysgwr:

## Holwch aelodau staff yr Amgueddfa am y canlynol:

| | |
|---|---|
| Y ty bach agosa' | |
| Siop lyfrau | |
| Yr ardd Eidalaidd | |
| Eiddo coll | |
| Prynu llyfrau Cymraeg | |
| Gweld crefftwr yn gweithio | |
| Postio cerdyn | |
| Dal bws i Gaerdydd | |









# GWEITHGAREDD 10

**Nod:** Trafod gwyliau.

## Patrymau:

Dych chi wedi bod ar wyliau dramor?
Pam dych chi'n hoffi mynd dros y môr?
P'un yw eich hoff wlad?
Sut dych chi'n hoffi teithio?
Pa mor aml dych chi'n mynd ar wyliau?
Ble basech chi'n hoffi mynd?
Ble dych chi'n aros fel arfer?
P'un yw'r gwesty gorau arhosoch chi ynddo?
Dych chi wedi aros mewn carafán?
Dych chi'n hoffi trio bwydydd gwahanol?



# Dysgwr:

Holwch 3 pherson am eu gwyliau.


| Person.... | Prydain/ Tramor? | Pam? | Hoff wlad? | Gwesty/Llety/ Carafan? | Awyren/Car/ Trên? | Gwyliau gwaetha? | Bwyd? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | | | | | | | |
| 2. | | | | | | | |
| 3 | | | | | | | |

# GWEITHGAREDD 11

**Nod:** Cymharu dyddiau ysgol slawer dydd â heddiw.

## Patrymau:

Pa bynciau oedd yn cael eu dysgu?
Roedd darllen, rhifo a sgrifennu'n bwysig iawn.
Doedd dim hawl 'da'r plant i siarad Cymraeg.
Ro'n nhw'n dysgu llawer o bethau ar eu cof.
Pa ganeuon o'n nhw'n canu?
Roedd plant o wahanol oedrannau yn yr un dosbarth.
Oedd y ddisgyblaeth yn llym iawn?
Oedd athrawon yn defnyddio'r gansen?
Stôf oedd yn gwresogi'r stafell ddosbarth.



## Geirfa:

athrawes (-au) b. = a female teacher
inc g. = ink
athro (athrawon) g.= a male teacher
llechen (llechi) b. = a slate
bwrdd (byrddau) du g. = a blackboard
map (-iau) g. = a map
cansen (-ni) b. = a cane
oedran (-nau) g. = age
desg (-iau) b. = a desk
pren (-nau) mesur g. = a ruler
disgybl (-ion) g. = a pupil
pwnc (pynciau) g. = a subject
gwres g. = heat
sialc g. = chalk
hawl (-iau) g. = a right
stafell ddosbarth b. = a classroom
cerddoriaeth b. = music

hanes g. = history
Cymraeg b. = the Welsh language
rhifyddeg b. = arithmetic
daearyddiaeth b. = geography
Saesneg b. = the English language
ysgrythur b. = scripture/R.E.
cosbi = to punish
egluro = to explain
cywiro = to correct
marcio = to mark
dysgu = to teach, to learn
profi = to test
disgyblu = to discipline
sillafu = to spell

# Dysgwr:

(i) Ewch i Ysgol Maestir i holi sut roedd addysg yn Oes Fictoria. Defnyddiwch yr awgrymiadau yma:

Pynciau
Siarad Cymraeg
Canu
Oedran y plant yn y dosbarth
Disgyblaeth
Y Welsh Not
Gwresogi

(ii) Gydag aelodau eraill eich grŵp, trafodwch sut roedd eich addysg gynradd chi yn wahanol i hyn gan ddefnyddio'r un penawdau.

**NODIADAU:**

# GWEITHGAREDD 12

**Nod:** Dysgu sut i gyfarch rhywun a holi am fanylion personol.

## Geirfa:

Y bwriad yw cysylltu geiriau defnyddiol ag adeiladau arbennig. Cyn mynd ar y daith dylai'r tiwtor drafod y geiriau hyn.

**1. Capel Pen-rhiw**
emynau
gweinidog
gwasanaeth

**2. Cilewent**
ffermdy
clos
beudy

**3. Ysgubor Hendre Wen**
ysgubor
ŷd
cynhaeaf


**4. Ysgol Maestir**
addysg feithrin
addysg gynradd
addysg uwchradd

**5. Gweithdy'r cyfrwywr**
gweithdy
crefftwr
offer

**6. Y Tolldy**
tollau
terfysg
clwyd


**7. Y twlc moch**
baedd
hwch
porchell

**8. Kennixton**
to gwellt
talcen
simnai



# Dysgwr:

Dilynwch y llwybr a nodir ar y map. Wrth i chi aros wrth bob adeilad edrychwch ar y geiriau priodol a cheisiwch eu rhoi mewn brawddeg cyn symud ymlaen. Ar ddiwedd y daith ceisiwch weld faint ohonyn nhw dych chi'n eu cofio wrth feddwl am y gwahanol adeiladau neu ewch o gwmpas eto gan aros wrth bob adeilad.




Gweithgaredd 12 - Activity path

**Capel Pen-rhiw**
emynau
gweinidog
gwasanaeth

**Cilewent**
ffermdy
clos
beudy

**Ysgubor Hendre Wen**
ysgubor
ŷd
cynhaeaf

**Ysgol Maestir**
addysg feithrin
addysg gynradd
addysg uwchradd

**Gweithdy'r cyfrwywr**
gweithdy
crefftwr
offer

**Y Tolldy**
tollau
terfysg
clwyd

**Y twlc moch**
baedd
hwch
porchell


**Kennixton**
to gwellt
talcen
simnai

# GWEITHGAREDD 13

**Nod:** Dysgu am briodasau a phriodi.

## Patrymau:

Ydy hi'n bosib priodi yn Sain Ffagan?
Ble priodoch chi?
Briodoch chi mewn capel, eglwys neu swyddfa gofrestru?
Faint o bobl oedd yn y briodas?
Gawn ni ddefnyddio Capel Pen-rhiw?
Ble arall yn yr Amgueddfa 'dyn ni'n gallu cynnal y seremoni?
Allen ni gael ein gwledd briodas yma hefyd?
Ble roedd eich gwledd briodas chi?
Pwy oedd eich gwas priodas/morwyn briodas?
Ble aethoch chi ar eich mis mêl?
Fasech chi'n hoffi priodi yn Sain Ffagan?



## Geirfa:


| | |
|---|---|
| capel (-i) g. | = a chapel |
| mis mêl g. | = a honeymoon |
| eglwys (-i) b. | = a church |
| morwyn (morynion) b. | = a bridesmaid |
| emyn (-au) g. | = a hymn |
| offeiriad (offeiriaid) g. | = a priest |
| gwas priodas g. | = a best man |
| parti (-on) g. | = a party |
| gwasanaeth (-au) g. | = a service |
| priodfab g. | = a bridegroom |
| gweinidog (-ion) g. | = a minister |
| priodferch b. | = a bride |
| gwledd briodas b. | = a wedding reception |
| swyddfa gofrestru b. | = a registry office |
| addo | = to promise |
| canu emynau | = to sing hymns |
| arwyddo | = to sign |
| priodi | = to get married |
| rhoi i ffwrdd | = to give away |

# Dysgwr:

Holwch 3 o bobl am eu priodasau:

| Enw | Priodi...ble? | Faint o bobl? | Gwledd?Ble? | Eich gwas priodas? | Morynion? | Mis mêl? | Priodi yn Sain Ffagan? | Pam? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |








# GWEITHGAREDD 14

**Nod:** Trafod trefnolion + enw a ffurfiau cryno'r amhersonol.

## Patrymau:

I ba ganrif mae'r castell yn perthyn?
Ym mha ganrif codwyd y tŷ?
Codwyd y gofeb yn yr ugeinfed ganrif.
Mae Gwalia Stores yn perthyn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.
Dyma'r pumed tŷ yn y rhes.
Adeiladwyd y ffermdy yn yr unfed ganrif ar bymtheg.
Codwyd y pre-ffab yn y ganrif ddiwethaf.



## Geirfa:

adeilad (-au) g. = a building
oriel (-au) b. = a gallery
bwthyn (bythynnod) g. = a cottage
popty (poptai) g. = a bakehouse
cofeb (-au) b. = a memorial
talwrn (talyrnau) g. = a cockpit
crochendy (crochendai) g. = a pottery
tanerdy (tanerdai) g. = a tannery
ffermdy (ffermdai) g. = a farmhouse
tollborth (tollbyrth) g. = a tollhouse
gweithdy (gweithdai) g. = a workshop
twlc mochyn (tylcau moch) g. = a pigsty
melin (-au) b. = a mill
tŷ gwair (tai gwair) g. = a hayshed
neuadd (-au) b. = a hall
ysgubor (-iau) b. = a barn

adeiladu = to build
codi = to build, to lift
perthyn = to belong to
y ddegfed ganrif = the 10th century
yr unfed ganrif ar ddeg = the 11th c
y ddeuddegfed ganrif = the 12th c
y drydedd ganrif ar ddeg = the 13th c
y bedwaredd ganrif ar ddeg = 14th c
y bymthegfed ganrif = the 15th c
yr unfed ganrif ar bymtheg = the16th c
yr ail ganrif ar bymtheg = the 17th c.
y ddeunawfed ganrif = the 18th c.
y bedwaredd ganrif ar bymtheg 19th c
yr ugeinfed ganrif = the 20th c
yr unfed ganrif ar hugain = the 21st c

# Gweithgaredd:

Ewch i'r adeiladau yma a holwch y gofalwyr ym mha ganrif y codwyd nhw. Nodwch pa fath o adeilad yw e. Bydd rhaid ichi roi'r wybodaeth ar lafar i'ch tiwtor:
Kennixton; Nant Wallter; Gwalia Stores; Hendre'r Ywydd Uchaf; Cilewent; Swyddfa'r Post; Siop y Teiliwr; Llainfadyn.

| Enw'r adeilad | Math | Canrif |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |












# GWEITHGAREDD 15

**Nod:** Trafod ofergoeledd gan ddechrau â'r ofergoelion (superstitions) a welir yn Ffermdy Kennixton.

## Patrymau:

Pam mae'r tŷ wedi ei beintio'n goch?
Pam mae'r griafolen yn yr ardd?
Pam roedd y ffermwr yn cadw halen yn y simnai?
Beth oedd pwrpas y ddau ffigwr a gerfiwyd wrth y drws?
Dych chi'n ofergoelus?
Pam mae pobl yn croesi eu bysedd?



## Geirfa:

| | | | |
|---|---|---|---|
| criafolen (coed criafol) b. | = a mountain ash | ysbryd (-ion) g. | = a spirit |
| ofergoel (-ion) b. | = a superstition | anlwcus | = unlucky |
| diafol (diawliaid) g. | = a devil | ofergoelus | = superstitious |
| ofergoeledd b. | = superstitiousness | lwcus | = lucky |
| ffrwythlonder b. | = fertility | ofnus | = nervous, fearful |
| symbol (-au) g. | = a symbol | amddiffyn (rhag) | = to defend (from) |
| lwc dda b. | = good luck | credu (mewn/yn) | = to believe (in) |
| lwc ddrwg b. | = bad luck | cadw draw | = to fend off |
| | | gwarchod | = to protect |

# Dysgwr:

## Holwch y gofalwr yn Kennixton am y tŷ a 2 berson arall am eu hofergoelion:

Pam lliw coch? ______________________________

Pam criafolen? ______________________________

Pam halen yn y simnai? ______________________________

Pam y ffigyrau wrth y drws? ______________________________

| Person.... | Dych chi'n ofergoelus? | Sut dych chi'n ofergoelus? | Ffrind ofergoelus? Sut? |
|---|---|---|---|
| 1. | | | |
| 2. | | | |





